# ROBERTS, RICHARD ('Gruffydd Rhisiart', 1810 - 1883), llenor a phregethwr gyda'r Annibynwyr



**Enw:** Richard Roberts
**Ffugenw:** Gruffydd Rhisiart
**Dyddiad geni:** 1810
**Dyddiad marw:** 1883
**Rhiant:** Mary Roberts (née Breese)
**Rhiant:** John Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llenor a phregethwr gyda'r Annibynwyr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Richard Griffith Owen

Ganwyd 5 Tachwedd 1809 yn y Diosg, Llanbrynmair, mab ieuengaf John Roberts (1767 - 1834). Addysgwyd ef yn ysgol ei dad a dygwyd ef i fyny yn amaethwr, ac ef a fu â gofal y tyddyn gan mwyaf, ond fel ei frodyr 'S.R.' a 'J.R.' ymddiddorai gryn lawer mewn llenora. Brithid cylchgronau'r cyfnod, yn arbennig y *Cronicl* (a olygid gan ei frodyr), gan ysgrifau a chaneuon o'i eiddo. Yn 1855 cyhoeddodd nofel a anfonasai i eisteddfod, ond nas gwobrwywyd, o'r enw *Jeffrey Jarman, y Meddwyn Diwygiedig*. Meddai arddull gartrefol a rhwydd, nes peri bod ei gynhyrchion yn ddarllenadwy ddigon, a cheid min ar ei ddychanu. Ymfudodd ef a'i briod a'i ferch i Tennessee yn 1856, ac aeth 'S.R.' ato yn 1857. Buont yno'n amaethu am tua 15 mlynedd. Rhwng cynllwynion y rhai a 'werthodd' y tir iddynt a helynt y Rhyfel Cartrefol, cawsant yno brofiadau chwerwon iawn a buont mewn perygl am eu heinioes laweroedd o weithiau. Yn 1872 dychwelodd y ddau i Gonwy, lle'r oedd eu brawd 'J.R.' yn weinidog. Bu farw 'G.R.', fel y gelwid ef, 25 Gorffennaf 1883, a chladdwyd ef ym mynwent gyhoeddus Conwy.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Griffith Owen**, (1890 - 1973)

## Ffynonellau


E. Pan Jones, David Onllwyn Brace, *Cofiant y Tri Brawd o Llanbrynmair a Conwy* (Bala 1892)

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 288-9

Iorwerth C. Peate, *Hen Gapel Llanbrynmair, 1739–1939* (1939), 49-50

Glanmor Williams, *Samuel Roberts, Llanbrynmair* (Caerdydd 1950)

Archifau LlGC: Minor Deposit 488: Llanbryn-mair Congregational Church

## Delweddau

Alfred Ford Smith, Samuel Roberts, Richard Roberts and John Roberts, of Llanbryn-mair

Alfred Ford Smith, Samuel Roberts, Richard Roberts and John Roberts, of Llanbryn-mair

## Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Llawysgrifau S.R. a J.R.

VIAF: 96803068

Wikidata: Q18783922

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu